

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth

13 Tachwedd 2019
Ystafell Gynadledda B

Cofnodion y Cyfarfod

Yn bresennol:

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)	James Tovey (Siarter	Morgan Harris (Cymdeithas
Russell George AC	Cymdeithas Genedlaethol y	Genedlaethol y Trefnwyr
Janette Bourne (Cruse)	Cyfarwyddwyr Angladdau	Angladdau)
Gwyneth Sweatman (Marie Curie)	Cynghreiriol ag Annibynnol)	David Beamer (Ysgrifennydd)
Jon Levett (Cymdeithas	Terry Tennens (Cymdeithas	Ahmed Alsisi (White Rose /
Genedlaethol y Trefnwyr	Genedlaethol y Cyfarwyddwyr	Acceptance)
Angladdau)	Angladdau Cynghreiriol ag	Emma Kneebone (2 Wish Upon A
	Annibynnol)	Star)
	Gordon Swan (Golden Charter)	
	Philip Blatchly (Cymdeithas	
	Genedlaethol y Trefnwyr	
	Angladdau)	

Eitem 1: Ymddiheuriadau

Darren Millar AC	Patrick McGlinchey (Siarter Aur)	Carys Moseley (Eglwys
Janet Finch-Saunders AC	Kate Edwards (Cymdeithas	Bresbyteraidd Cymru)
Paul Davies AC	Genedlaethol y Trefnwyr	Tony Curtis (Dreams & Wishes)
Neil Hamilton AC	Angladdau)	Lorraine Barrett (Offeiriad
Kim Bird (About the Funeral)	Gemma O'Driscoll (Cyn-lywydd,	Dyneiddiol)
Nigel Lymn Rose (Cymdeithas	Cymdeithas Genedlaethol y	Wendy Hobbs (Dreams &
Genedlaethol y Trefnwyr	Cyfarwyddwyr Angladdau	Wishes)
Angladdau)	Cynghreiriol ag Annibynnol)	Jean Letton (Cymdeithas
	Martin Birch (Cyngor Sir	Gweithwyr Cymdeithasol
	Caerdydd)	Prydain)
		Sarah Hughes (Canolfan
		Maggies)

Eitem 2: Cymeradwyo'r Cofnodion

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Eitem 3: Ethol Swyddogion

Etholwyd y swyddogion a ganlyn:

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
David Beamer (Ysgrifennydd)

Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf

Rhannodd yr Ysgrifennydd lythyrau ymateb oddi wrth y canlynol:

- John Glen AS (Trysorlys EM) - ynghylch cynlluniau angladd rhagdaledig
- Martin Coleman (yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) – ynghylch yr ymchwiliad i'r farchnad angladdau

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod swyddfa'r Prif Grwner wedi ei hysbysu y byddai angen iddynt gysylltu â Chyngor Sir Swydd Rydychen i gael gwybodaeth cyn ymateb i lythyr gan y Cadeirydd.

Trafododd y Grŵp ymateb John Glen a gwnaed cais am wybodaeth bellach ar effaith cynllun y Trysorlys ar fusnesau bach. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr at Weinidog perthnasol Trysorlys EM ar ôl yr etholiad cyffredinol.

Eitem 5: Cymorth profedigaeth yn ymwneud â cholli babanod a chamesgoriad

Roedd Russell George AC wedi gofyn i'r eitem hon gael ei chynnwys ar yr agenda.

Cafwyd trafodaeth ar waith Sands–y Gymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion. Mae Sands yn rhan o'r Gweithgor Marw-enedigaethau Genedlaethol yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro Jean White (Prif Swyddog Nyrsio Cymru), sydd bellach yn is-grŵp parhaol o fewn Rhwydwaith Mamolaeth Cymru.

Dywedodd Janette Bourne fod Cruse yn gweithio'n agos gyda Sands. Dywedodd Emma Kneebone nad oedd 2 Wish Upon A Star, yn anffodus, yn gallu cynnig cymorth profedigaeth ar gyfer camesgoriad na marw-enedigaethau.

Eitem 6: Adolygiad Gwasanaethau Profedigaeth

Diolchodd y Cadeirydd i Cruse Cymru, Marie Curie a 2 Wish Upon A Star am eu mewnbwn i ohebiaeth a anfonwyd at Vaughan Gething AC ynglŷn â'r adolygiad. Hefyd, rhoddodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau gyflwyniad ar ofal profedigaeth i'r Grŵp Angladdau a Phrofedigaeth ac amgawyd hwn gyda'r llythyr at Mr Gething.

Cytunwyd y byddai'r Grŵp yn aros am gyhoeddiad yr adroddiad terfynol ac yna gwneud sylwadau pellach; bydd hefyd yn cael ei roi ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Russell George AC y byddai'n ceisio cyflwyno cwestiwn ar yr adolygiad.

Cytunwyd hefyd i anfon copi o'r llythyr a anfonwyd at Vaughan Gething AC at lechyd Cyhoeddus Cymru.

Eitem 7: Diweddariad Adolygiad Safonau Defnyddwyr Gwasanaeth Angladdau

Rhannodd Morgan Harris ddogfen wedi'i diweddarau ar adolygiad safonau defnyddwyr gwasanaeth angladdau. Trafododd y papur ac amlinellodd gymhlethdod y materion yr oedd yr adolygiad yn eu hystyried a'r angen am fwy o ymgynghori.

Cafwyd trafodaeth ar gyfansoddiad gweithgorau'r adolygiad. Dywedodd Morgan Harris fod croeso i elusennau profedigaeth gymryd rhan yn yr adolygiad ac y dylent gysylltu ag ef i gael eu hychwanegu at y rhestr cyswllt e-bost ar gyfer yr adolygiad.

Yng nghyfarfod nesaf y Grŵp, cytunwyd i drafod cynnydd yr adolygiad. Cyn hynny, gofynnodd y Cadeirydd i Morgan Harris dynnu sylw'r Ysgrifennydd at unrhyw ddatblygiadau allweddol fel y gallent gael eu cylchredeg i aelodau'r Grŵp.

Eitem 8: Cronfa Gymdeithasol / Fforddiadwyedd Angladdau

Trafododd y Grŵp y cyhoeddiad ar 5 Tachwedd 2019 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef o wanwyn 2020 ymlaen, bydd yr uchafswm y gall teuluoedd ei hawlio i helpu i dalu am gostau fel arch, blodau a ffioedd trefnwyr angladdau yn cynyddu 43 y cant, o £700 i £1,000.

Croesawodd Jon Levett y cyhoeddiad, ond nododd fod £1,000 yn dal i fod yn annigonol ac nad oedd cynllun i gynyddu'r cap yn unol â chwyddiant bob blwyddyn.

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Weinidog yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dilyn yr etholiad yn croesawu'r cyhoeddiad ond yn ailddatgan yr angen i gynyddu'r elfen wedi'i chapio bob blwyddyn yn unol â chwyddiant. Cytunodd y Cadeirydd hefyd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn amlinellu'r cyhoeddiad diweddar gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a barn y Grŵp ar faint y cap a'r angen i'w gysylltu â lefel chwyddiant.

Eitem 9: Sganwyr MRI

Cytunwyd i ofyn i siaradwr ddod i gyfarfod nesaf y Grŵp i drafod y mater hwn yn fwy manwl. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd gysylltu ag Ahmed Alsisi a gododd y mater hwn ar 10 Gorffennaf 2019.

Eitem 10: Unrhyw fater arall

Rhoddodd Gwyneth Sweatman ddiweddariad i'r Grŵp ar waith Marie Curie a'i ymgyrch hysbysebu ddiweddar sy'n annog y DU i fod yn agored ynghylch marwolaeth.

Eitem 11: Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cytunwyd i drefnu tri chyfarfod yn 2020. Bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu aelodau'r Grŵp o'r dyddiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod.